## FFURFLEN GANIATÂD YNGLŶN Â CHYFRANIAD CYFATHREBU

Yma yn Barnardo's rydym yn cefnogi plant ledled y Deyrnas Unedig gyda'n gwasanaethau, ymgyrchoedd ac ymchwil hanfodol; diolch i chi am ein helpu ni. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ffurflen hon neu ynglŷn â sut i'w chwblhau, siaradwch â'ch cyswllt yn Barnardo's os gwelwch yn dda, e.e. eich gweithiwr prosiect neu cysylltwch â'r tîm marchnata. Byddan nhw'n falch o'ch helpu chi a bydd yn rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau.

Mae Barnardo's yn cynhyrchu amrediad o adnoddau cyfathrebu i ddweud wrth bobl am y gwaith yr ydym yn ei wneud, ac am ein gwasanaethau ynghyd â chodi arian ar gyfer ein gwaith. Hoffwn rannu profiadau pobl go iawn sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ein cyfathrebiadau, oherwydd mae'n helpu i ddangos y gwahaniaeth y mae ein gwaith yn ei wneud. Drwy gwblhau'r ffurflen hon, rydych chi'n rhoi caniatâd inni ddefnyddio unrhyw wybodaeth yr ydych chi'n ei darparu; cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel y **"cyfraniad".**

Wrth i chi roi eich cyfraniad, byddwch chi'n derbyn cerdyn sy'n nodi'r manylion ynglŷn â sut i gysylltu â ni os byddech chi'n hoffi trafod unrhyw agwedd o'ch cyfraniad neu er mwyn i chi dynnu'ch caniatâd yn ôl (os ydych chi'n dewis gwneud hynny yn ddiweddarach).

**Manylion y plentyn / yr unigolyn ifanc / yr oedolyn sy'n rhannu'r cyfraniad:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw llawn | | | |
| Cyfeiriad | | | |
| | | Côd Post | |
| Rhif ffôn | | | |
| E-bost | | | |

**Ar gyfer beth fydd fy nghyfraniad yn cael ei ddefnyddio?** (Ticiwch y dewisiadau yr ydych chi'n hapus â nhw os gwelwch yn dda)

**Cyflwyniadau:** Ar gyfer pobl sy'n gweithio y tu mewn a thu allan i Barnardo's ☐

**Gwefannau:** Gwefan a mewnrwyd Barnardo's (gwefan ein staff) ☐

**Cyfryngau cymdeithasol:** Tudalennau cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion cyfryngau cymdeithasol Barnardo's a all gynnwys: podlediad, Facebook, Twitter, LinkedIn, Instagram, Pinterest, YouTube, Vimeo a Snapchat Barnardo's ☐

**Cyhoeddiadau:** Taflenni, adroddiadau, posteri, cylchlythyrau a deunyddiau hysbysebu a marchnata eraill gan Barnardo's ☐

**Cyfryngau printiedig ac ar-lein:** Papurau cenedlaethol (drwy'r DU), papurau rhanbarthol a lleol; cylchgronau a safleoedd newyddion ☐

**Teledu a radio:** Teledu cenedlaethol a rhanbarthol; radio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ☐

**Ymgyrchoedd codi arian:** post uniongyrchol, e-byst a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn helpu i godi arian tuag at waith Barnardo's ☐

Bydd y cyfraniad a ddarperir gennych chi yn cael ei:

- storio a'i ddefnyddio am gyfnod o hyd at dair blynedd, os nad ydych chi'n dewis tynnu'ch caniatâd yn ôl
- ddefnyddio i hyrwyddo neu hysbysebu nodau Barnardo's drwy'r sianeli yr ydych chi wedi cytuno inni eu defnyddio;
- gadw yn ddiogel ac yn cael ei rhannu yn unig gyda'n cyflenwyr neu'n partneriaid yr ydym yn gweithio gyda nhw er mwyn cyflawni a gwella gwasanaethau; a
- (Hefyd, gall fod) ar gael ar gyfer aelodau o dimau proffesiynol a thimau gwasanaethau Barnardo's neu ar gyfer ein codwyr arian

Gellir newid neu dynnu'ch caniatadau yn ôl ar unrhyw adeg drwy hysbysu Barnardo's yn ysgrifenedig. Pan ydych chi'n rhoi eich cyfraniad, byddwch chi'n derbyn cerdyn gyda manylion ynglŷn â sut i dynnu'ch caniatâd

Elusen gofrestredig yw Barnardo's yng Nghymru a Lloegr 216250 ac yn yr Alban SC037065, ac mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant [61625 Lloegr].

yn ôl, os ydych chi'n dewis gwneud hynny yn ddiweddarach. Fodd bynnag, dylech chi fod yn ymwybodol, unwaith y mae'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch cyfraniad yn cael ei rhoi ar y rhyngrwyd, rydym yn colli rheolaeth i ryw raddau dros ddosbarthu, adalw a/neu waredu'r wybodaeth. Gallai hyn olygu mai hyd yn oed os ydym yn peidio â defnyddio'r wybodaeth honno, mae'n bosibl y gall hi barhau i fod ar gael ar y rhyngrwyd. Yn ogystal, ni allwn ni reoli pa fathau o sylwadau y gall cyfraniad fod yn destun iddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Dylech chi gofio hyn wrth ddarparu eich caniatadau uchod os gwelwch yn dda.

**Ni fyddwn ni byth yn gwerthu eich manylion ac yn/neu'n eu rhannu gyda thrydydd parti os na fydd angen i Barnardo's wneud hynny drwy'r gyfraith, neu os ydym yn credu bod risg o niwed.**

Bob tro yr hoffem ni ddefnyddio eich cyfraniad, byddwn yn cysylltu â chi i wirio a ydych chi'n fodlon inni ei ddefnyddio. Yn ogystal, byddwn yn egluro i chi ar gyfer beth y byddwn yn ei ddefnyddio. Byddwn yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod eich cyfraniad yn parhau yn fanwl gywir ac yn briodol.

---

**A allaf fod yn anhysbys?**
Gallwch chi ddewis cyhoeddi eich enw go iawn neu fod yn anhysbys (os felly, byddwn yn defnyddio enw ffug). Ticiwch un o'r dewisiadau canlynol os gwelwch yn dda:

Rydw i'n fodlon i'm henw go iawn gael ei ddefnyddio ☐ Nid wyf yn dymuno defnyddio fy enw go iawn ☐

A oes yna unrhyw nodweddion y gellir cael eu huniaethu â chi NAD ydych chi'n dymuno eu cynnwys yn ein dulliau cyfathrebu? *Er enghraifft, eich lleoliad neu'ch oed neu oed eich plant*

---

**Gwybodaeth ychwanegol**
Y rheswm yr ydym yn gofyn y cwestiynau hyn yw sicrhau bod cymysgfa amrywiol o bobl yn yr holl ddeunydd sydd gan Barnardo's. Ysgrifennwch ar y llinellau a ddarperir neu ticiwch y blwch 'mae'n well gen i beidio â datgelu' os gwelwch yn dda. Mae'r wybodaeth hon ar gyfer dibenion mewnol yn unig.

**Oed** ____________________ **Mae'n well gen i beidio â datgelu** ☐

**Ethnigrwydd** ____________________ **Mae'n well gen i beidio â datgelu** ☐

**Rhyw** ____________________ **Mae'n well gen i beidio â datgelu** ☐

---

**Rydw i'n fodlon rhoi fy nghaniatâd**
Arwyddwch y ffurflen hon os gwelwch yn dda er mwyn dangos eich bod yn fodlon rhoi caniatâd i'ch cyfraniad gael ei ddefnyddio gan Barnardo's ar gyfer y dibenion a amlinellir uchod. Ni fydd gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch cyfraniad yn cael ei defnyddio na'i storio am gyfnod hirach na thair blynedd, os nad ydych chi yn gofyn inni beidio â'i defnyddio cyn y cyfnod hwnnw.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | Dyddiad | |

**Os ydych chi o dan 18 oed, rydym ni angen caniatâd ysgrifenedig gan riant, gwarcheidwad neu oedolyn cyfrifol.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod y rhiant / gwarcheidwad | | Dyddiad | |

---

Dychwelwch eich ffurflen orffenedig at eich gweithiwr achos neu'ch cyswllt Barnardo's. Fel arall, gallwch ei hanfon trwy e-bost at consentforms@barnardos.org.uk. Diolch yn fawr.
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ffurflen, cysylltwch â'ch gweithiwr achos neu'ch cyswllt yn Barnardo's os gwelwch yn dda.

**Diogelu Data:** Mae Barnardo's yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac yn addo parchu eich preifatrwydd. Mae'r data yr ydym yn ei gasglu a'i gadw yn cael ei reoli yn unol â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Ni fyddwn ni'n datgelu nac yn rhannu gwybodaeth bersonol a roddir gennych chi heb eich caniatâd, os na fydd angen inni wneud hynny drwy'r gyfraith neu ein bod yn credu bod risg o niwed. Gallwch chi weld ein hysbysiad preifatrwydd llawn yma: www.barnardos.org.uk/privacy-notice